**Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2015 yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Y Drenewydd

Yn bresennol:

| | | |
|---|---|---|
| Alan Michie | - | CDG Sir Fynwy |
| Alison Heal | - | Cyngor Sir Ceredigion |
| Bleddyn Lake | - | FoE Cymru |
| Claudia Howard | - | Partneriaeth Llyfrgelloedd Gogledd Cymru |
| Francis Gellatly | - | APHA |
| Jenny Shaw | - | WBKA |
| Maureen Pritchard | - | Llywodraeth Cymru |
| Marc Carlton | - | Fforwm Garddio er lles Bywyd Gwyllt |
| Natasha De-Vere | - | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |
| Richard Phipps | - | KWT |
| Russel Hobson | - | Butterfly Conservation Cymru |
| Simon Bilsborough | - | Llywodraeth Cymru |
| Sinead Lynch | - | Bumblebee Conservation Trust |
| Steve Lloyd | - | Llywodraeth Cymru |
| Steve Rose | - | Cymdeithas ar gyfer Gwella Amodau i Wenyn ac i Unigolion Sy’n Magu Gwenyn |
| Steve Williams | - | CBS Torfaen |

**1. Cyflwyniad ‘Natural Buzz’ KWT**

- Llywodraeth Cymru i ofyn i adran Iechyd Llywodraeth Cymru drefnu gweithdy peillwyr ar gyfer cynulleidfa cynnal a chadw tiroedd y GIG (prosiect Natural Buzz yn Ysbyty Ystrad Fawr)
- Llywodraeth Cymru i ofyn i adran Tai Llywodraeth Cymru drefnu gweithdy peillwyr ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (prosiect Natural Buzz gyda Tai Calon)
- KWT i adrodd yn ôl ar yr adborth ar y prosiect ar ansawdd y cyngor (rhestri cyfeillgar i beillwyr) a gynigiwyd; ac ar sut mae’r problemau cysylltiedig â chynnal a chadw parhaus yn cael sylw
- Russell Hobson i ddosbarthu ffigurau am arbedion cost o ran cynnal a chadw tiroedd o brosiect y Butterfly Conservation Trust ar stad ddiwydiannol ger Wrecsam

**2. CBS Torfaen – cyflwyniad Peillwyr am Oes**

- Steve Williams i ddosbarthu manylion y gwaith arolygu – peillwyr ar laswelltir dymunol sy’n cael ei reoli’n gyson yn erbyn safleoedd lle mae blodau gwyllt wedi’u plannu
- Llywodraeth Cymru i fynd ar ôl mater - a oes unrhyw gyfarwyddyd i swyddogion rheoli plâu ar symud gwenyn mêl mewn ffordd gydymdeimladol mewn cartrefi

**3. Cyflwyniad y Gymdeithas ar gyfer Gwella Amodau i Wenyn ac i Unigolion Sy'n Magu Gwenyn**

- Llywodraeth Cymru i fynd ar ôl y mater sy'n ymwneud â chofnodion am wenyn sydd wedi cael eu mewnforio i Loegr a'u symud wedyn i gymryd, ac i ba raddau mae hyn yn creu risg o afiechyd
- Llywodraeth Cymru i fynd ar ôl y mater ynghylch a oes gan Lywodraeth Cymru bwerau i wahardd mewnforio gwenyn i Gymru?

**4. Papurau diweddaru**

- Llywodraeth Cymru i ystyried y posibilrwydd o gael Gweinidog i ysgrifennu at yr awdurdodau lleol a'r Cynghorau Tref a Chymuned ar faterion rheoli ymylon ffyrdd, gan gynnwys negeseuon i drigolion lleol
- Creu gwybodaeth ar gyfer cynhadledd WBP ar reoli ymylon ffyrdd i gynnwys tystiolaeth (e.e. o arolwg Torfaen); astudiaeth achos; arfer gorau (e.e. beth i'w wneud gyda'r glaswellt sydd wedi'i gasglu); ac arbedion cost

**5. Ymchwil a thystiolaeth**

- Cefnogaeth gref i gynnig ymchwil CEH. Llywodraeth Cymru i fynd ar ôl (i) y cyd-fynd â chynllun monitro peillwyr Defra ar gyfer Prydain Fawr gyfan; a (ii) y croesi gyda gwaith monitro Glastir

**6. Camau nesaf y CGP**

- Dyma'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt:
    - Glastir – canllawiau peillwyr i ffermwyr
    - Gwenyn cynaliadwy
    - Monitro a thystiolaeth
    - Rheoli tiroedd mewn ffordd gyfeillgar i beillwyr ar dir y sector cyhoeddus, gan gynnwys ymylon ffyrdd
    - Ymgysylltu cymunedol, gan gynnwys garddio er lles bywyd gwyllt
- Byddai unrhyw weithgorau gan y CGP yn canolbwyntio ar y canlynol:
    - Cydlynu
    - Cyfathrebu
    - Arfer da
- Llywodraeth Cymru i edrych ar opsiwn i gael cyfres unigol o negeseuon am beillwyr allan i ysgolion drwy gyfrwng y rhaglenni eco-ysgolion; ac edrych yn ehangach ar y mater gydag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Creu gwybodaeth am beillwyr i gynhadledd WBP - gallai'r themâu gynnwys (1) amcanion a nodau'r CGP; (2) ymylon ffyrdd (fel uchod); (3) beth mae'r CGP wedi'i gyflawni hyd yma
- Aelodau'r Tasglu i ystyried llunio gweledigaeth ar gyfer Cymru sy'n gyfeillgar i beillwyr
- Sir Fynwy Cyfeillgar i Wenyn a FoE i lunio "siarter" ar gyfer nod achredu "cyfeillgar i beillwyr" (e.e. 6 o bethau i'w gwneud i fod yn gyfeillgar i beillwyr, yn seiliedig ar ddull gweithredu Sir Fynwy Cyfeillgar i Wenyn sydd ar ffurf hunanasesu ac mae posib ei lawrlwytho; hyn i gael ei gyflwyno ar gyfer trafodaeth yn y gweithdy peillio yng nghynhadledd WBP.

**7. Y Cyfarfod Nesaf**

- Y cyfarfod nesaf yn y Drenewydd yn ystod wythnos gyntaf mis Rhagfyr;
- Gofyn i James Byrne fod yn gadeirydd;
- Y cyfarfod i gynnwys: diweddariad ar Fil yr Amgylchedd; cyflwyniad ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.